

Cais gan berchennog safle neu feddiannydd am benderfyniad ynghylch lefel newydd o ffi am lain.

Paragraff 17(1)(b), 17(1)(6)(a) a 17(11)(a) o Atodlen 2 Pennod 2 a pharagraffau 47(1)(b), 47(5)(a), 47(9)(a) a 47(11) o Atodlen 2, Pennod 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”).

MAE'R FFURFLEN HON YN BERTHNASOL I SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL YNG NGHYMRU YN UNIG GAN GYNNWYS LLEINIAU PARHAOL AR SAFLEOEDD AWDURDODAU LLEOL I SIPSIWN A THEITHWYR YNG NGHYMRU.

Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.

Dyma'r ffurflen i'w defnyddio os ydych chi'n berchennog safle Cartrefi Symudol gwarchoddedig ('y perchennog') neu'n feddiannydd Cartref Symudol o dan gytundeb sy'n cael ei reoli gan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ('y meddiannydd') a bod y perchennog wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd yn cynnig ffi newydd am lain ond bod y partïon wedi methu dod i delerau ynghylch y ffi newydd a'ch bod yn dymuno gwneud cais i'r Tribiwnlys yn gofyn iddo bennu lefel newydd y ffi am y llain.

**Terfynau
Cofiwch:**

amser

- Os yw'r perchennog, o leiaf 28 diwrnod clir cyn y dyddiad adolygu, wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd yn y ffurf a ragnodwyd sy'n nodi cynigion o ran y ffi newydd am y llain, gall y *perchennog neu'r meddiannydd* wneud cais i'r Tribiwnlys unrhyw bryd ar ôl diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad yr adolygu ond heb fod ddim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad yr adolygu. (Paragraff 17(7) Atodlen 2, Pennod 2 o'r Ddeddf).
- Os nad oedd y perchennog wedi cyflwyno hysbysiad o'r fath o leiaf 28 diwrnod clir cyn y dyddiad adolygu, ond ei fod wedi cyflwyno hysbysiad unrhyw bryd ar ôl hynny, gall y *perchennog neu'r meddiannydd* wneud cais i'r Tribiwnlys unrhyw bryd ar ôl diwedd y cyfnod o 56 diwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynodd y perchennog yr hysbysiad, ond heb fod ddim hwyrach na 4 mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad. (Paragraff 17(12) Atodlen 2, Pennod 2 o'r Ddeddf).
- *Yng nghyswllt lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol i sipsiwn a theithwyr*, os oedd y perchennog, o leiaf 28 diwrnod clir cyn y dyddiad adolygu, wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd yn y ffurf a ragnodwyd oedd yn nodi cynigion o ran y ffi newydd am y llain, gall y *perchennog* wneud cais i'r Tribiwnlys unrhyw bryd ar ôl diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad adolygu ond heb fod ddim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad adolygu. (Paragraff 47(6) Atodlen 2, Pennod 4 o'r Ddeddf).
- *Yng nghyswllt lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol i sipsiwn a theithwyr*, os nad oedd y perchennog wedi cyflwyno hysbysiad o'r fath o leiaf 28 diwrnod clir cyn y dyddiad adolygu, ond ei fod wedi cyflwyno hysbysiad unrhyw bryd ar ôl hynny, gall y *perchennog* wneud cais i'r Tribiwnlys unrhyw bryd ar ôl diwedd y cyfnod o 56 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynodd y perchennog yr hysbysiad, ond heb fod ddim hwyrach na 4 mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad. (Paragraff 47(10) Atodlen 2, Pennod 4 o'r Ddeddf).

Mae gan y Tribiwnlys y pŵer i ganiatáu cais ar ôl yr amser penodedig ond dim ond os yw'n fodlon yn yr holl amgylchiadau eich bod yn gallu dangos rhesymau da dros beidio â gwneud y cais o fewn yr amser a bennwyd a hefyd dros yr oedi ers hynny cyn gwneud y cais, (Paragraff 17(13), Atodlen 2, Pennod 2 a pharagraff 47(11) Atodlen 2, Pennod 4 o'r Ddeddf).

Nodyn i Geiswyr

Cynghorir Ceiswyr ei bod yn bosib y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i'r Tribiwnlys yn cael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd.

Dogfennau

Mae'n rhaid i chi anfon y ddogfen/dogfennau canlynol ("dogfen/dogfennau angenrheidiol") gyda'r cais hwn:

- Copi o'r cytundeb rhwng perchennog y safle a meddiannydd y Cartref Symudol.
- Copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd i feddiannydd y Cartref Symudol yn nodi cynigion perchennog y safle o ran y ffi newydd am y llain, ac unrhyw ddogfennau a ddaeth gyda'r hysbysiad hwnnw.
- Copi o unrhyw gytundeb neu orchymyn sy'n ymwneud â'r ffi bresennol am y llain

Os byddwch yn methu anfon y ddogfen/dogfennau angenrheidiol, gallai olygu na fydd eich cais yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Pan ac os bydd angen rhagor o wybodaeth, tystiolaeth neu ddogfennau arnom, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau uchod yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon. Ysgrifennwch yn glir gan ddefnyddio inc DU, os gwelwch yn dda.

1. MANYLION Y CARTREF SYMUDOL A'R SAFLE

Cyfeiriad y cartref symudol a'r safle:	
--	--

2. MANYLION Y CEISYDD

Enw:	
Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cytundeb i feddiannu yn berthnasol iddo (gan gynnwys y cod post):	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol):	

Rhif ffôn:

Yn ystod y dydd:

Gyda'r nos:

Symudol: :

Cyfeiriad e-bost:

Enw, cyfeiriad a manylion yr asiant/cynrychiolydd (os yn berthnasol)

Lle rhoddir manylion asiant/cynrychiolydd, gyda'r asiant/cynrychiolydd hwnnw y bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu ac yn gohebu bob amser hyd nes y caiff ei hysbysu nad yw bellach yn gweithredu ar ran y ceisydd/ceiswyr.

3. DEWIS IAITH

Nodwch eich dewis iaith:

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawriad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

4. MANYLION YR ATEBYDD

Enw:	
------	--

Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cytundeb i feddiannu yn berthnasol iddo (<i>gan gynnwys y cod post</i>):	
---	--

Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol):	
--	--

Rhif ffôn:

<i>Yn ystod y dydd:</i>

<i>Gyda'r nos:</i>

<i>Symudol:</i> :

Cyfeiriad e-bost:

5. MANYLION YR ADOLYGIAD

Y dyddiad y gwnaed y cytundeb meddiannaeth:

Ffi bresennol am y llain

Ydy'r ffi am y llain yn cynnwys taliad am y canlynol:

Dŵr Ydi Nac ydi

Carthffosiaeth Ydi Nac ydi

Nwy Ydi Nac ydi

Trydan Ydi Nac ydi

Unrhyw wasanaethau eraill (rhowch fanylion os gwelwch yn dda) Ydi Nac ydi

--

Dyddiad adolygu (os oes un) a nodwyd yn y cytundeb:

Dyddiad yr adolygiad diwethaf:

A oedd yr adolygiad diwethaf drwy gytundeb neu drwy orchymyn gan y Llys neu'r Tribiwnlys?

Cytundeb Llys Tribiwnlys

Darparwch gopi o'r cytundeb neu'r gorchymyn os gwelwch yn dda

Dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad o'r ffi newydd arfaethedig am y llain i feddiannydd y cartref symudol:

Newidiadau ers yr adolygiad diwethaf

Ers dyddiad yr adolygiad diwethaf ydy perchennog y safle wedi gwario arian ar welliannau:

Sydd er lles meddianwyr cartrefi symudol ar y safle Ydi Nac ydi

A fu'n destun ymgynghori gyda meddianwyr y cartrefi symudol ac unrhyw gymdeithas preswylwyr gymwys Ydi Nac ydi

Nad oedd mwyafrif y meddianwyr y cartrefi symudol* wedi anghytuno â nhw mewn ysgrifen neu, yn achos anghytuno o'r fath, y mae'r Tribiwnlys, ar gais perchennog y safle, wedi gorchymyn y dylid eu hystyried wrth bennu swm y ffi newydd am y llain. Ydi Nac ydi

*Wrth gyfrifo faint yw mwyafrif o'r meddianwyr cartrefi symudol, rhaid cymryd mai un meddiannydd yn unig sydd gan bob cartref. Os oes mwy nag un meddiannydd, cymerir mai'r meddiannydd yw'r person y mae ei enw'n ymddangos gyntaf ar y cytundeb.

A oes unrhyw ddirywiad wedi bod yng nghyflwr y safle a/neu unrhyw leihad wedi bod yn amwynder y safle neu unrhyw ddarn o dir cyfagos y mae'r perchennog yn ei reoli neu yn ei feddiannu ers 1^{af} Hydref 2014 (i'r graddau nad yw'r dirywiad neu'r lleihad hwnnw wedi cael ei ystyried wrth bennu ffi am y llain cyn hyn)?

Oes Nac oes

A oes unrhyw leihad wedi bod yn y gwasanaethau y mae'r perchennog yn eu cyflenwi i'r safle, y llain neu'r cartref symudol a/neu unrhyw ddirywiad yn ansawdd y gwasanaethau hynny ers 1^{af} Hydref 2014 (i'r graddau nad yw'r dirywiad neu'r lleihad hwnnw wedi cael ei ystyried wrth bennu ffi am y llain cyn hyn)?

Oes Nac oes

A effeithiwyd yn uniongyrchol ar y costau sy'n daladwy gan berchennog y safle o ran cynnal a chadw neu reoli'r safle yn sgil ymddeddfiad sydd wedi dod i rym ers y dyddiad adolygu diwethaf? (ac eithrio costau y mae'r perchennog wedi'u cael ers y dyddiad adolygu diwethaf at ddibenion cydymffurfio â'r newidiadau a wnaed i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 yn sgil Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013?

Do Na

Rhowch fanylion unrhyw newidiadau a nodwyd uchod, gan gynnwys cyfeirnod unrhyw benderfyniad gan Dribiwnlys y cyfeiriwyd ato uchod.

6. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nodwch yn gryno pam rydych chi'n credu y dylai'r Tribiwnlys ddod i'r penderfyniad rydych yn gofyn amdano:

7. ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl delio â'ch cais yn gyfan gwbl ar sail sylwadau ysgrifenedig ("penderfyniad ar bapur") OND DIM OND:

- Os bydd y Tribiwnlys yn meddwl fod hynny'n briodol ac
- Os nad yw unrhyw barti wedi gofyn am wrandawiad

Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno i benderfyniad ar bapur

- Efallai y bydd y Tribiwnlys, serch hynny, yn penderfynu bod gwrandawiad llafar yn angenrheidiol.

Gallwch chi neu unrhyw barti arall ofyn am wrandawiad llafar o hyd ar unrhyw bryd cyn y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

Ydych chi'n cytuno i'r cais hwn gael ei benderfynu heb wrandawiad llafar? Ydw Nac ydw

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon, gan dybio y bydd gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal.

8. ARGAELEDD

A wnewch chi roi gwybod i ni isod os oes unrhyw ddyddiadau neu ddyddiau yn y tri mis nesaf y bydd yn rhaid i ni eu hosgoi (naill ai oherwydd nad ydynt yn hwylus i chi neu oherwydd nad ydynt yn hwylus i unrhyw dyst neu arbenigwr y byddech yn dymuno ei alw).

Dyddiadau pan NAD ydych ar gael:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

Dyddiad:

9. GOFYNION O RAN Y LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu unrhyw un a fydd yn dod gyda chi (e.e. mynediad i gadair olwyn, presenoldeb cyfieithydd). Bydd gwybod beth yw eich anghenion o gymorth i'r Tribiwnlys wrth iddo wneud trefniadau.

10. DATGANIAD GWIRIONEDD

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn yn wir.

Llofnod:

Enw (mewn
llythrennau bras)

Swydd (os yn briodol) (ee
Cyfarwyddwr, Cyfreithiwr):

Dyddiad:

RHESTR WIRIO

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau'r ffurflen hon YN LLAWN.
- Cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os nad ydych wedi gwneud hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r weithdrefn y bydd y Tribiwnlys yn ei defnyddio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar 0300 025 2777 neu anfonwch e-bost at rpt@llyw.cymru

Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at rpt@llyw.cymru neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon gyda'r dogfennau angenrheidiol i'r cyfeiriad isod:

Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl

Oak House

Cleppa Park

Celtic Springs

Casnewydd

NP10 8BD